institute of public care

better outcomes through well run, evidence-based public care

# Partneriaeth Cwm Taf

# Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
# Gweithdai Rhanddeiliaid
# Crynodeb a Dadansoddiad

## Adroddiad

## Rhagfyr 2016

OXFORD BROOKES UNIVERSITY

http://ipc.brookes.ac.uk

# Partneriaeth Cwm Taf

# Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gweithdai Rhanddeiliaid Crynodeb a Dadansoddiad

# Adroddiad

## 1 Cefndir

Comisiynwyd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) i hwyluso cyfres o weithdai ymgysylltu i helpu Partneriaeth Cwm Taf gyda'r gwaith o gynnal Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Nod cyffredinol y gweithdai hyn oedd sicrhau bod rhanddeiliaid yn parhau i gymryd rhan ym mhroses asesu'r boblogaeth.

Nod penodol y gweithdai oedd dod â rhanddeiliaid ynghyd i ystyried y blaenoriaethau/heriau sy'n deillio o ddogfennau briffio'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac i feddwl am opsiynau ar sut i fynd i'r afael â nhw. Roedd y rhanddeiliaid i gynnwys staff, defnyddwyr gwasanaethau, trigolion, grwpiau cymunedol, Aelodau Etholedig, ac unrhyw un a oedd eisoes wedi bod yn rhan o'r broses ac yn dymuno parhau i gymryd rhan ac eraill.

Y bwriad oedd i gynhyrchion o'r gweithdai lywio 'dadansoddiad ymateb' yr asesiadau, a fydd yn nodi sut bydd partneriaid yn diwallu'r anghenion blaenoriaeth a nodwyd.

Mae'r adroddiad hwn yn un o'r cynhyrchion hynny, ac yn grynodeb a dadansoddiad lefel uchel o'r prif themâu a syniadau a ddeilliodd o'r gweithdai. Bydd yn sail i drafodaeth ac ystyriaeth o gamau gweithredu pellach gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, a Grŵp Arweinyddiaeth sy'n Gweddnewid Partneriaeth Cwm Taf.

Ar gyfer yr adroddiad, mae Partneriaeth Cwm Taf wedi gofyn i IPC gynnig crynodeb o'r gweithdai, themâu cyffredin, enghreifftiau o arferion da a syniadau a gyflwynwyd. Gofynnwyd i ni gynnwys sylwadau yn cynnwys ein harsylwadau ni, ac awgrymiadau ar faterion i'w hystyried yn y dyfodol. Wrth gynnig ein barn, rydym wedi nodi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, fel y crynhoir isod.

Trefnwyd gweithdai rhanddeiliaid yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fel rhan o ymateb Partneriaeth Cwm Taf i'w ofynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi pwyslais cryf ar gyd-gynhyrchu, a gweithio gyda phobl i ddod o hyd i atebion priodol. O ran asesu anghenion poblogaethau, mae yna:

- Ofyniad ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gynnal asesiad o'r graddau mae yna bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.
- Gofyniad i awdurdodau lleol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol ffurfio un cytundeb partneriaeth gyda'r Bwrdd hwnnw at ddibenion cynnal yr asesiad hwn.

Mae Adran 14 o'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r asesiad nodi:

- I ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu
- Yr amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny
- Yr amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol yn adran 15 o'r Ddeddf
- Sut bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad asesu erbyn 1 Ebrill 2017, ac mae'n **rhaid** i adran 1 gynnwys themâu craidd penodol sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Anableddau iechyd/corfforol
- Anabledd dysgu/awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Nam ar y synhwyrau
- Gofalwyr sydd angen cymorth
- Trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol

Cafodd cyfres o benodau yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth eu hysgrifennu gan wahanol awduron o'r Bartneriaeth, yn adlewyrchu'r themâu craidd uchod. Roedd y gweithdai y gofynnwyd i IPC eu hwyluso'n seiliedig ar themâu'r penodau. Yn yr adran nesaf rydym yn amlinellu proses a methodoleg y gweithdai, ac yn crynhoi'r materion blaenoriaeth y gofynnwyd i randdeiliaid fynd i'r afael â nhw ym mhob sesiwn.

## 2 Gweithdai – proses a methodoleg

Trefnwyd chwe gweithdy hanner diwrnod, fel a ganlyn:

| **Thema** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Gofalwyr | 20 Hydref |
| Iechyd Meddwl | 31 Hydref |
| Pobl Hŷn, Anabledd Corfforol, Nam ar y Synhwyrau | 8 Tachwedd |
| Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol | 15 Tachwedd |
| Anabledd Dysgu | 17 Tachwedd |
| Plant a Phobl Ifanc | 23 Tachwedd |

Cafodd gwaith yr IPC ei reoli gan Graeme McLaren, y Prif Ymgynghorydd, a hwylusodd bedwar o'r gweithdai hefyd. Cafodd y ddau weithdy arall – Pobl Hŷn ac Anabledd Dysgu, eu hwyluso gan Juliet Bligh a Sarah Broadhurst, Prif Ymgynghorwyr.

Daeth tua 140 o bobl i'r gweithdai, gyda'r niferoedd yn amrywio o 17 (Anabledd Dysgu) i 34 o bobl (Iechyd Meddwl). Cafwyd cynrychiolaeth o ddau awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 38 o sefydliadau'r trydydd sector, Llywodraeth Cymru/Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a thua 5 defnyddiwr gwasanaethau/gofalwr hunanddatganedig. Mae'n werth nodi'r canlynol:

- Cafwyd cynrychiolaeth dda iawn o'r ddau awdurdod lleol, o'r gwasanaethau oedolion a phlant yn bennaf.
- Nid oedd llawer o gynrychiolaeth o gwbl o'r sector iechyd.
- Cynrychiolwyr o'r trydydd sector oedd y gyfran uchaf yn y gweithdy pobl hŷn/anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau.

Nodau pob gweithdy oedd:

- Sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn parhau i gymryd rhan ym mhroses yr asesiad o anghenion y boblogaeth drwy:
  - Atgoffa ein hunain pam ein bod ni'n gwneud hyn, a beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma
  - Adolygu beth mae'r data yn ei ddweud am anghenion blaenoriaeth
  - Defnyddio ein profiad ein hunain i nodi unrhyw fylchau, ac ychwanegu at y data
  - Ystyried sut i ddiwallu'r anghenion blaenoriaeth
  - Cadarnhau'r camau nesaf

Cytunwyd bod dull cyson yn bwysig, ac o ganlyniad mabwysiadodd pob gweithdy yr un fformat, gyda chyflwyniadau, cyflwyniad cryno o'r data gan awduron y penodau, nodi themâu blaenoriaeth, a chyfres o faterion i'r mynychwyr eu hystyried. Cawsant gyfle i weithio mewn grwpiau trafod, dan arweiniad hwylusydd bwrdd. Gofynnwyd i'r grwpiau trafod greu darlun o arferion da cyfredol hefyd, a syniadau am ffyrdd effeithiol o ddiwallu anghenion - gan gadarnhau'r syniad mai adeiladu ar gryfderau cyfredol oedd bwriad y gweithdai.

Nid ailadrodd y data a gyflwynwyd gan awduron y penodau yw ein cylch gwaith yma. Fodd bynnag, dylem nodi'r anghenion blaenoriaeth, a nodwyd gan awdur pob pennod, gan y gofynnwyd i bob gweithdy ystyried y blaenoriaethau hyn fel rhan o'r broses o nodi unrhyw fylchau. Mae yna orgyffwrdd sylweddol rhwng y materion blaenoriaeth hyn - yn wir, roedd nifer o weithdai wedi ystyried yr un rhai, ond roedd rhai gwahaniaethau. Mae'r blaenoriaethau a gyflwynwyd i bob gweithdy wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Gweithdy | Mater blaenoriaeth |
|---|---|
| Gofalwyr | ▪ Nodi a chydnabod Gofalwyr<br>▪ Gwybodaeth a chyngor<br>▪ Cymorth a hyfforddiant<br>▪ Llais, dewis a rheolaeth<br>▪ Cyfathrebu a chydgysylltu |
| Iechyd Meddwl | ▪ Bylchau mewn gwasanaethau ataliol<br>▪ Diffyg cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector<br>▪ Oedi wrth drosglwyddo gofal<br>▪ Casglu data<br>▪ Iaith gyffredin |
| Pobl Hŷn, Anabledd Corfforol, Nam ar y Synhwyrau | ▪ Bylchau mewn gwasanaethau ataliol<br>▪ Diffyg cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector<br>▪ Oedi wrth drosglwyddo gofal<br>▪ Casglu data<br>▪ Iaith gyffredin |
| Trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol | ▪ Bylchau niferus mewn darpariaeth gwasanaeth<br>▪ Diffyg cydweithio ar draws ffiniau darpariaeth gwasanaeth<br>▪ Anghysonderau daearyddol mewn darpariaeth<br>▪ Diffyg ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau<br>▪ Yr her o symud adnoddau o wasanaethau cymorth risg uchel i wasanaethau ataliol |
| Anabledd Dysgu | ▪ Bylchau mewn gwasanaethau ataliol<br>▪ Diffyg cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector<br>▪ Oedi wrth drosglwyddo gofal<br>▪ Casglu data<br>▪ Iaith gyffredin |
| Plant a Phobl Ifanc | ▪ Angen iaith gyffredin – e.e. beth ydyn ni'n ei olygu gyda'r term ataliol?<br>▪ Angen defnyddio setiau data |

| | |
|---|---|
| | ehangach a rhannu data'n well<br>■ Angen gwasanaethau ataliol cyffredinol |

Mae IPC wedi casglu data ansoddol crai o bob gweithdy, a'i ddarparu i awduron y penodau i'w helpu i lunio drafftiau pellach. Ar gyfer yr adroddiad hwn, gofynnwyd i IPC gynnig crynodeb lefel uchel o'r prif themâu a'r materion a ddeilliodd o drafodaethau'r grwpiau, ac yn y sesiwn lawn gyffredinol ym mhob digwyddiad. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, wedi'u cymryd o benawdau sylfaenol ar siartiau troi ar fyrddau, a'u trefnu'n thematig. Mae IPC wedi cynnwys rhai sylwadau dehongli ar gyfer y themâu, ac rydym yn ychwanegu rhai arsylwadau cyffredinol gan hwyluswyr y gweithdai.

# 3 Gweithdai – themâu cyffredin

## 3.1 Data

- Dau gwestiwn oedd yn ymddangos yn gyson yn y gweithdai ac a fynegwyd yn eang oedd, "Beth yw cefndir y data?" a "Beth mae'n ddweud wrthym mewn gwirionedd?".
- Nid yw data'n cael ei gyflwyno'n gyson yn y gwahanol benodau. Er bod hyn yn anochel i raddau, o ystyried yr ystod eang o ffynonellau data, dulliau adrodd, a gallu gwahanol i gasglu'r data, mae yna gyfle i ystyried cyflwyno data mewn ffordd glir a chyson yn y dyfodol.
- Mae yna gyfle i ddadansoddi'r data ymhellach, er mwyn deall beth mae'n ei awgrymu. Cyfeiriwyd at enghraifft yn ymwneud ag Iechyd Meddwl: defnyddir cyfradd rhagnodi meddygon teulu fel dangosydd. Ond mewn gwirionedd efallai bod hyn yn dangos yr awydd i ragnodi nid y ffaith fod yna lefel uwch o iselder.
- Mae yna angen parhaus am well data, a dangosyddion perfformiad mwy ystyrlon. Felly, er enghraifft, mae data trais domestig yn dueddol o ganolbwyntio ar argyfwng, a byddai'n dda cael set ehangach o ddangosyddion perygl cynnar hefyd (bwlio mewn ysgolion, troseddwyr ifanc, Tîm o Amgylch y Teulu), a fyddai'n cyfrannu'n fwy effeithiol at yr agenda atal; neu drwy gynnwys data ar ddefnydd o fanciau bwyd gellid ychwanegu dimensiwn arall i helpu i ddeall pa blant sydd mewn perygl. Awgrymodd y gweithdy ar Blant a Phobl Ifanc y dylid datblygu fframwaith dangosyddion natur agored i niwed – gallai hwn sicrhau dealltwriaeth well o anghenion grŵp oedran 14-25 oed, sef y rhai mwyaf mewn perygl (a lle gwelir gostyngiad sydyn mewn gwasanaethau cymorth)
- Mae angen i'r adborth o'r gweithdai gael ei ategu gan waith a gwblhawyd eisoes ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, a bydd angen i hwn fod yn sail i ddadansoddiad parhaus yn y dyfodol – mae yna ddeunydd ansoddol da y gellir ei ddefnyddio fel arfer, ac mae hwn yn allweddol ar gyfer deall anghenion yn well. Gall wella dealltwriaeth o anghenion mewn gwahanol lefydd hefyd, pan nad yw setiau data cyfredol yn gallu dadgyfuno i ddangos y sefyllfa ar lefel leol.

## 3.2 Gwybodaeth

- Y farn gyffredinol oedd y gellid gwella ymhellach y wybodaeth am wasanaethau a chymorth er mwyn iddynt fod yn hygyrch ac yn gyfredol i ddinasyddion.

- Roedd y gweithdai'n gyfle defnyddiol i bobl gyfuno gwybodaeth, ac roedd hyn yn pwysleisio'r angen am wella pellach mewn perthynas â chydgysylltu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i weithwyr proffesiynol yn y dyfodol.

## 3.3 Llais y Dinesydd

- Yn yr holl weithdai, mynegwyd barn y dylid pwysleisio ymhellach llais y dinesydd, ac y byddai eu cymorth i lywio'r gwasanaethau yn bwysig. Yn yr holl weithdai, cafwyd galw cyson am i ddinasyddion gyfranogi a chyfrannu fel partneriaid cyfartal wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.
- Roedd cydnabyddiaeth eang o'r graddau yr oedd anghenion gofalwyr yn croesgyfeirio i bob pennod o'r PNA, a chytundeb bod yn rhaid i lais gofalwyr gael ei adlewyrchu. Wrth fynd i'r afael â materion unrhyw grŵp cleientiaid, rhaid cael ffocws ar ofalwyr: er enghraifft, rhaid i wasanaethau dydd anableddau dysgu gael eu cynllunio ar y cyd â gwasanaethau seibiant.
- Ar yr un pryd, roedd cydnabyddiaeth bod angen bod yn realistig, fel bod dulliau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac ar unigolyn yn arwain at ddealltwriaeth yn seiliedig ar anghenion, yn hytrach na bod yn 'rhywbeth i bawb'.

## 3.4 Cydweithredu

- Er bod cydnabyddiaeth bod dogfennau briffio'r PNA yn troi o gwmpas grwpiau cleientiaid y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roedd hi'n glir o bob gweithdy bod cryn orgyffwrdd rhwng themâu'r penodau - y berthynas rhwng Iechyd Meddwl, Trais Domestig, Camddefnyddio Sylweddau a'r ffactorau risg i blant, er enghraifft. Roedd yna synnwyr cryf bod angen dwyn ynghyd penodau'r PNA gan eu cysylltu â 'llinyn aur', a bod hyn yn hanfodol wrth gynllunio gwasanaethau, er enghraifft, o amgylch plant ar aelwydydd lle mae trais domestig.
- Cafwyd adborth bod y PNA yn canolbwyntio'n ormodol ar iechyd a gofal cymdeithasol - er bod hyn yn anochel gan fod y gofyniad yn dod o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, nodwyd bod asesu anghenion y boblogaeth "yn llawer mwy na dim ond gwasanaethau cymdeithasol". Mae angen ehangu'r ffocws i gynnwys tai, hamdden, cludiant a chynllunio, wrth i'r broses ddatblygu yn y dyfodol.
- Yn hyn o beth, cafwyd barn eang y byddai dull sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau ar set o ganlyniadau a rennir i'r boblogaeth yn werthfawr. Codwyd hyn fel ffordd o ganolbwyntio meddylfryd trefniadol ar y dinesydd, ond hefyd fel mecanwaith ar gyfer defnyddio dangosyddion perfformiad yn fwy pwrpasol.

## 3.5 Cynaliadwyedd

- Gan ystyried yn arbennig y cyni ar y pwrs cyhoeddus a'r angen i fabwysiadu dulliau ataliol i helpu i ateb y galw, cydnabuwyd bod rhaid cael pwyslais wrth ddadansoddi ar ddatblygu ymatebion cynaliadwy i anghenion y boblogaeth.
- Mae disgwyliadau poblogaethau lleol yn newid, sy'n dod â risg o analluogi i ymateb i'r galw. Mae cydnerthedd cymunedau yn hanfodol er mwyn rheoli hyn, a rhaid i PNA felly gynnwys dealltwriaeth fanylach o'r hyn sy'n gwneud cymunedau'n gydnerth. Mae hyn yn ymwneud â'r pwyntiau a godwyd am lais y dinesydd.

- Mae cydnerthedd cymunedau yn hanfodol i gynnal gwasanaethau, ac mae angen cefnogaeth ar bobl i adeiladau rhwydweithiau cymunedol.
- Cafwyd barn glir yn y gweithdai bod angen ymateb i lais y dinesydd, er mwyn meithrin cydnerthedd cymunedau, ac mae'n dyngedfennol ail-symud y ffocws er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydweddu â'r hyn sydd eisoes mewn cymunedau, yn hygyrch na cheisio gwthio pobl i mewn i wasanaethau.

Mae'r pwyntiau hyn yn tanlinellu'r angen am newid diwylliant a hefyd y brif egwyddor o ganolbwyntio ar asedau, yn hytrach na diffygion. Fe wnaeth y gweithdai fabwysiadu'r egwyddor hon, a chafodd hyn ei gydnabod gan y cyfranogwyr

## 4 Gweithdai – Syniadau a Rannwyd

Roedd y gweithdai'n gyfle i'r cyfranogwyr gyfuno gwybodaeth a syniadau er mwyn adeiladu darlun o enghreifftiau o ymarfer da cyfredol, a ffyrdd posibl o ddiwallu angen a nodwyd. Cafodd awduron y penodau fynediad i'r holl restrau a grëwyd ymhob gweithdy. Mae' r tabl isod yn amlinellu detholiad o'r syniadau a ddaeth i'r fei - mae rhai'n syniadau yn rhai y gellid eu datblygu ymhellach, ond heb enghreifftiau o'u bod ar waith yn ardal y Bartneriaeth; mae eraill yn enghreifftiau sydd ar waith yn ardal y Bartneriaeth a thu hwnt.

| **Gweithdy** | **Enghraifft** |
|---|---|
| MH | Keep Safe Cymru - Cynllun Cerdyn Gwasanaeth LD, Heddlu De Cymru, Mencap Cymru |
| | Valley Steps – Siop un stop yn cynnig gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ar lesiant emosiynol |
| Gofalwyr | Model Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) - dylid ei efelychu ar gyfer oedolion |
| | Canolfannau Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr - hyfforddiant, cymorth a gweithgareddau |
| | Strategaeth Ymgynghori a Gwybodaeth Gofalwyr Cwm Taf |
| OP/PD/SI | Dosbarthiadau cynhwysedd digidol Merthyr Tudful gyda chynlluniau tai gwarchod |
| | Rhondda Cynon Taf: Cymunedau/trefi sy'n ystyriol o ddementia: Pontypridd, Maerdy, Aberpennar |
| VAWDASV | *Identification and Referral to Increase Safety* (IRIS) – Hyfforddiant DVA, cymorth a rhaglen atgyfeirio mewn meddygfeydd, a gyllidir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Cymru a Bwrdd Iechyd Cwm Taf. |
| | Hyb Diogel Amlasiantaeth (MASH) – un pwynt cyswllt ar gyfer gweithwyr proffesiynol |
| LD | Gwasanaeth Cymorth Gofalwyr Rhondda Cynon Taf ar gyfer Plant |

| Gweithdy | Enghraifft |
|---|---|
| | Dechrau'n Deg – ymwelwyr iechyd â llwythi achos llai/ymyriadau cynnar, cymorth gydag ymddygiad, cymorth iaith a lleferydd |
| | Timau ABMU HASC wedi eu cydleoli |
| CYP | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) – hyfforddiant mewn ysgolion |
| | Proffilio Lefel Perygl RhCT – peilot yn y Rhondda |

## 5 Gweithdai – Arsylwadau cyffredinol yr Hwyluswyr

Mewn sesiwn ôl-drafodaeth gydag aelodau o Grŵp Craidd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, yn dilyn y gweithdy olaf, holwyd i aelodau'r Asesiad am eu harsylwadau fel rhan o'r adroddiad hwn. Mae tri hwylusydd yr Asesiad wedi cynllunio ac ôl-drafod gyda'i gilydd, ac felly mae gennym y cyfle i fyfyrio ar y gweithdai yn eu cyfanrwydd. Rydym yn cynnig arsylwadau o bersbectif hwyluswyr, a hynny heb fod yn rhan o'r gwaith cynllunio cyn y gweithdai a'r trefniadau cyffredinol.

Rydym yn cydnabod cyflawniad Partneriaeth Cwm Taf i fwrw iddi gyda'r broses hon yn fuan, a'i nod o geisio ymgysylltu â chymaint o randdeiliaid â phosibl, yng nghyd-destun amserlen heriol iawn. Bwriad yr arsylwadau canlynol yw llywio'r broses sy'n mynd rhagddi gyda'r PNA a chyfrannu at y meddylfryd strategol.

- Roedd y niferoedd a oedd yn bresennol yn y gweithdai yn amrywio, yn dibynnu ar y grŵp poblogaeth dan sylw. Ar y cyfan, prin oedd y gynrychiolaeth gan wasanaethau cyffredinol, ar wahân i'r gwasanaethau tai o bosib - sy'n gryn bryder o ystyried y ffocws cryf ar wasanaethau ataliol - ac mae'n bosib bod hwn yn faes i'w archwilio ac i fynd i'r afael ag ef mewn ymarferion yn y dyfodol. Mae bob amser yn anodd cael y cydbwysedd iawn o gyfranogwyr, mewn gweithdai fel hyn - roedd gan rai lawer o gynrychiolwyr o'r trydydd sector, eraill â chynrychiolaeth gref o'r awdurdodau lleol - ond wrth i broses yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fynd rhagddi, hwyrach y byddai'n werth bod yn fwy pendant am gydbwysedd y gynrychiolaeth sy'n ofynnol o'r gwahanol sefydliadau a sectorau yn y gymuned.
- Doedd dim llawer o ddinasyddion yn cyfranogi yn y gweithdai, er ein bod ar ddeall y cafwyd ymgysylltu helaeth â grwpiau dinasyddion mewn gweithdai eraill cyn y gweithdai. Mae'n werthfawr i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol rannu persbectif mewn sesiynau tebyg i'r rhain, a byddem yn annog edrych mwy ar y dull hwn yn y dyfodol.
- Roedd papur ôl-drafod yn llywio pob gweithdy a oedd yn ymwneud â phennod o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Roedd hyd a lled y dadansoddiadau yn amrywio rhywfaint, ac roedd rhai gweithdai fel petaent yn llenwi'r bwlch gwybodaeth felly, gyda llai o amser yn cael ei roi i ganolbwyntio ar y nod o greu syniadau am sut i ddiwallu'r anghenion. Rydym yn cydnabod bod rhesymau da dros hyn efallai, gan fod i rai penodau'r fantais o fod â llinell sylfaen mwy cadarn o'r dechrau ac felly ei bod yn haws adeiladu arni, ond mae cyfle i ddatblygu dadansoddiadau mwy cyson ar draws grwpiau'r poblogaethau yn y dyfodol.

## 6 Meysydd i'w hystyried

Bwriad y materion a godwyd a'r allbynnau a gafwyd yn y gweithdai yw llywio cynllunio strategol y dyfodol. Ar sail ein profiad o hwyluso'r gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid, a'r themâu a nodwyd, i grynhoi rydym yn argymell y dylid ystyried ymhellach nifer o feysydd gan y TLG, a'r Byrddau perthnasol ym Mhartneriaeth Cwm Taf. Mae yna rai meysydd allweddol lle mae'r cyfranogwyr yn awyddus i weld datblygu pellach wrth i bartneriaid gynllunio'n strategol yn y dyfodol:

- Mae cyfleoedd ar gyfer datblygiadau pellach yn ansawdd y data, y dadansoddi ac wrth rannu gwybodaeth y dyfodol rhwng partneriaid, yn ogystal â chyfleoedd pellach i ymgysylltu a sicrhau bod llais y dinasyddion yn llywio cynllunio strategol.
- Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn mynnu bod angen i bartneriaid gydweithredu ar yr agenda datblygu strategol, a gellid adeiladu ar y cynnydd da hyd yma a'i ymestyn ymhellach, y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol, gyda mwy o bwyslais ar ganlyniadau. Mae cydnabyddiaeth eang na ellir mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd mewn seilos, ac y bydd angen ymgysylltu llawn gan amrywiaeth o randdeiliaid.
- Yn unol â'i fwriad, mae'r Asesiad yn dechrau o bersbectif angen. Fodd bynnag, mae'r darlun a geir o'r ochr gyflenwi yn llawn mor bwysig. Bydd angen rhoi sylw i hyn fel rhan o'r gofyniad arfaethedig ar awdurdodau lleol i gynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.
- Wrth gwrs, nid yw grwpiau poblogaeth yn bethau cwbl annibynnol sy'n cau allan pob dim arall, felly wrth symud ymlaen i ddiwallu anghenion penodol, bydd yn bwysig sicrhau bod agendau integredig effeithiol ledled y bwrdd. Er enghraifft:
  - Bydd angen i'r Datganiad o Fwriad Strategol ar gyfer Anableddau Dysgu, a'r Strategaeth Plant gysylltu'n agos â'i gilydd
  - Bydd angen ystyried ymgysylltu â gofalwyr a'u cefnogi ar gyfer pob grŵp poblogaeth.
  - Mae'n bosib y bydd angen i bartneriaid fod yn sicr bod cynlluniau strategol i gefnogi pobl â dementia yn cael eu cadw'n effeithiol rhwng iechyd meddwl a chynlluniau pobl hŷn
  - Mae atal, cydnerthedd cymunedol ac ymyrryd yn gynnar yn agendau eang sy'n wynebu pob grŵp poblogaeth ac mae angen dull cydgysylltiedig arnynt.

Yn gyffredinol, yng nghyd-destun yr amserlen heriol ac amrywiaeth eang o fecanweithiau ymgysylltu, mae Cwm Taf wedi gwneud dechrau da i sefydlu dadansoddiad o anghenion y boblogaeth fel proses strategol allweddol i helpu partneriaid, gyda'i gilydd, i ddeall yr anghenion a'r galw yn y dyfodol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a dechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gobeithio y bydd yr awgrymiadau hyn yn ategu'r ffynonellau gwybodaeth eraill ac yn llywio datblygiad parhaus y broses hon, sy'n dal i fynd rhagddi.

**Sefydliad Gofal Cyhoeddus**
**Rhagfyr** 2016